Cymorth Cynllunio Cymru
Planning Aid Wales

Addroddiad Blynyddol 2009 / 2010

Cymorth Cynllunio Cymru
Adroddiad Blynyddol
Ebrill 2009 i Fawrth 2010

Cynnwys

		Tudalen
Rhagair y Cadeirydd		2
Gwaith achos		3
Gweithio gyda chymunedau		5
Adeiladu'r sefydliad		8
Gweithio gyda phartneriaid		11
Edrych ymlaen		12
Atodiad 1	Meini prawf cymhwyster	13
Atodiad 2	Gwybodaeth ariannol 2009/10	14
Atodiad 3	Cyfarwyddwyr a'r staff	15

Cymorth Cynllunio Cymru – yn gweithio tuag at system gynllunio fwy teg

Gwefan: www.cymorthcynlluniocymru.org.uk
Cyngor ar ebost: post@cymorthcynlluniocymru.org.uk
Llinell Gymorth Cyngor: 02920 625 000
Ymholiadau cyffredinol: 02920 625 009

Elusen gofrestredig 1000115
Cwmni cyfyngedig drwy warant 2526875 (Cymru)

ISBN: 0-9553803-8-3
978-0-9553803-8-9

RTPI
mediation of space · making of place
cyd drefnu gofod · creu cynefin

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Rhagair y Cadeirydd

Hoffwn eich gwahodd i ddarllen Adroddiad Blynyddol Cymorth Cynllunio Cymru eleni o fwrdd llong yr MS Ventura wrth iddi forio i La Coruna yng ngogledd Sbaen. Wrth i ni groesi Bae Gwasgwyn, sy'n enwog am ei fôr tymhestlog, mae'r môr yn anarferol o dawel ac o'n blaen mae dyddiau o hwylio rhwydd. Mae hyn yn fy atgoffa rywfaint o sut aeth pethau yn ystod fy ail flwyddyn fel Cadeirydd Cymorth Cynllunio Cymru.

Eleni eto mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi bod yn hynod o weithgar gyda llawer o brosiectau pwysig ar y gweill a digwyddiadau'n cymryd lle. Wrth i mi ddarllen trwy fersiwn ddrafft yr adroddiad mae'n anodd credu bod cymaint wedi ei gyflawni gan gofio faint o adnoddau sydd ar gael i Gymorth Cynllunio Cymru.

Mae canran fawr o'n llwyddiant eleni wedi digwydd oherwydd ymroddiad ein tîm staff bychan. Rwy'n ddyledus iawn iddynt am eu holl ymdrechion ac am wneud fy rôl i fel Cadeirydd yn rhwydd a di-ffwdan. Un o'r pethau sy'n gwneud ymroddiad i Gymorth Cynllunio Cymru mor apelgar yw amrywiaeth y gwaith. P'un ai ydych chi'n gwirfoddoli, yn gyfarwyddwr ar y Bwrdd Rheoli neu'n aelod staff mae rhywbeth yn mynd ymlaen o hyd sydd o ddiddordeb ac yn gallu codi awch.

Yn ystod y flwyddyn parhaodd Cymorth Cynllunio Cymru i weithio'n weithredol gyda chymunedau yn ogystal ag o fewn y proffesiwn cynllunio, megis y rhaglen hyfforddi ymgysylltu, ar gyfer cynllunwyr awdurdodau lleol, gyda'r bwriad i adeiladu dealltwriaeth o'r anghenion gwahanol sydd gan bobl sydd am ymwneud â materion cynllunio. Hefyd, cynrychiolwyd Cymorth Cynllunio Cymru ar y grŵp llywio oedd yn goruchwylio adolygu'r broses cais cynllunio yng Nghymru, gyda chomisiwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i archwilio materion a phryderon yn deillio o'r broses cais cynllunio.

Rwy'n falch i adrodd ein bod yn parhau i ddenu gwirfoddolwyr newydd a bod ein gwaith achos ar lefel resymol o hyd. Hoffwn ddiolch i'r holl wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i weithio ar achosion trwy gydol y flwyddyn. Heb eu hymroddiad a'u cefnogaeth hwy ni fyddai Cymorth Cynllunio Cymru yn gallu parhau â'r gwaith gwerthfawr gyda'r un faint o effeithiolrwydd.

Rydym wedi parhau i gynnal cysylltiadau agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru dros y flwyddyn ac rydym yn ddiolchgar o hyd am eu cefnogaeth parhaus. Tra bo eleni wedi gweld adfywiad ym Mwrdd Rheoli Cymorth Cynllunio Cymru gydag aelodau newydd, mae dau le gwag o hyd felly cofiwch gynnig eich hunain os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn gyfarwyddwr ymddiriedol. Estynaf ddiolch arbennig i'm cydweithwyr ar y Bwrdd am eu cefnogaeth barhaus a'u cyfraniadau trwy gydol y flwyddyn.

Gyda thristwch mae'n rhaid imi orffen y rhagair eleni trwy adrodd bod dwy aelod staff Cymorth Cynllunio Cymru, Marika Fusser a Maria Allen, yn ein gadael. Er i'r ddwy gael eu cyflogi'n rhan-amser maent wedi bod yn asedion go iawn i'r sefydliad a bydd colled ar eu hôl. Dymunaf yn dda iddynt at y dyfodol.

Tony Humphreys

Cadeirydd Cymorth Cynllunio Cymru

Gwaith achos

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyngor o ansawdd uchel ar Linell Gymorth, gyda chymorth gan wirfoddolwyr sy'n weithwyr achos cymwys. Rhwng Ebrill 2009 a Mawrth 2010 derbyniasom bron i bedwar cant o alwadau yn gofyn am wybodaeth, cyngor a chymorth ar ystod eang o faterion cynllunio. O'r rhain roedd pedwar deg pump gan grwpiau cymunedol, gyda chyfanswm o 320 o aelodau.

Rydym yn defnyddio meini prawf cymhwyster (gweler Atodiad 1) i sicrhau bod ein hadnoddau cyfyngedig yn cael eu defnyddio ar gyfer y bobl sydd â'r angen mwyaf am ein cymorth. Nid ydym yn cynorthwyo pobl sy'n debygol o elwa'n ariannol o benderfyniad cynllunio – cyfeirir y bobl hyn at restr o ymgynghorwyr cynllunio ardystiedig. Dengys y siartiau isod gymhwyster cleientiaid y Llinell Gymorth dros y flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â'r mathau o gwestiynau a dderbyniwyd:



Astudiaeth achos:
Cefnogaeth i drigolion Caerffili

Dros ddeunaw mis, mae tair gwirfoddolwraig – Katherine Hughes, Helen Ridgway a Davina Powell – wedi rhoi dros dri chant o oriau i helpu'r gymuned leol i ddelio gyda materion cynllunio cymhleth sy'n ymwneud ag ailddatblygu safle Ysbyty Mwynwyr Caerffili. Bu'r tîm o wirfoddolwyr yn cynorthwyo mewn amryw ffyrdd, yn cynnwys:

- Gweithio gyda'r Aelod Cynulliad Jeff Cuthbert i ddatblygu pwyllgor rheoli prosiect gydag aelodau lleol ac ymgynghorywr proffesiynol.
- Siarad mewn digwyddiadau lleol i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a'r materion dan sylw.
- Datblygu partneriaeth gyda Chymdeithas Tai Unedig Cymru sy'n gobeithio datblygu tai fforddiadwy ar weddill y safle.
- Gwneud arolygon lleol i nodi sylwadau lleol a chodi ymwybyddiaeth.
- Sicrhau arian gan Gronfa'r Mileniwm er mwyn marchnata a'r Gronfa Allweddol er mwyn cynnal astudiaeth ymarferoldeb.
- Sefydlu prosiect hanes, y byddai aelodau eraill y pwyllgor yn ei ddatblygu.
- Paratoi cynllun busnes a chynlluniau gweithredol ar gyfer y pwyllgor.
- Cyfarfod â'r Gweinidog, swyddogion a staff cyngor perthnasol.
- Paratoi cynrychioliadau ar gyfer y Cynllun Datblygu lleol.
- Darparu cyngor cynllunio strategol i'r pwyllgor.
- Mynychu cyfarfodydd y pwyllgor.
- Creu gwefan ar gyfer y pwyllgor rheolaeth er mwyn ymgysylltu â'r gymuned.
- Cynghori'r Pwyllgor Rheolaeth ar ymgynghoriad cymunedol.

Dywedodd y wirfoddolwraig Katherine Hughes: *"Mae bod yn wirfoddolwraig gyda Chymorth Cynllunio Cymru wedi helpu i ddarparu'r cysylltiad cychwynnol gyda'r gymuned ac wedi darparu yswiriant indemniad ar gyfer gweithgaredd sy'n berthnasol i gynllunio gan y tîm gwirfoddoli. Mae hefyd wedi helpu i nodi pryd oedd angen cyngor cynllunio ar y pwyllgor ac wedi codi ymwybyddiaeth o Gymorth Cynllunio i'r gymuned ehangach yng Nghaerffili. Mae gan y pwyllgor ddyled fawr i Gymorth Cynllunio Cymru ac mae'n ystyried sut y gall nodi ei werthfawrogiad i'r gwirfoddolwyr ac i sefydliad mor werthchweil."*

Astudiaeth achos:
Cefnogaeth i deithwyr sy'n Sipsiwn

Gofynnwyd i ni yn gynnar yn 2009 a allem helpu teulu o deithwyr i apelio yn erbyn gwrthod caniatâd i gadw eu safle bychan ar gyfer carafanau yng Nghasnewydd. Gweithiodd gwirfoddolwyr Cymorth Cynllunio Cymru gyda'r teulu i baratoi ar gyfer yr apêl ac hefyd aethant i'r Gwrandawiad a benderfynnodd roi caniatâd presonol dros dro i'r teulu. Mynegwyd pryder yn adroddiad yr Arolygydd ynghylch diffyg darpariaeth safle gan y cyngor, a chynorthwyodd hyn deulu arall o deithwyr i gael caniatâd cynllunio i'w safle hwy yn fuan wedyn. Mae dau deulu arall yn cael cefnogaeth ar hyn o bryd: cyflwynwyd cais cynllunio ar safle sy'n berchen i deithwyr ond heb garafanau arno, a bydd un arall yn dilyn yn fuan i gadw safle presennol.

Mae'r gwaith hwn yn anodd oherwydd y gall teithwyr brofi amodau byw gwael sy'n achosi iechyd gwael a dim ond lefel isel o lythrennedd sydd gan lawer ohonynt. Fodd bynnag, rydym wedi dangos bod gweithio'n agos gyda'r awdurdod cynllunio yn gallu lleihau gwrthdaro ac yn arbed cost gorfodaeth ynghylch safleoedd anawdurdodedig. Ar hyn o bryd mae Cymorth Cynllunio Cymru yn archwilio opsiynau ariannu i gael gweithiwr penodol i gydlynu pecyn o gefnogaeth ar gyfer grwpiau Teithwyr ar draws nifer fach o awdurdodau Cymreig.

Gweithio gyda chymunedau

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn bwriadu cynyddu ymrwymiad cymunedau lleol yn holl agweddau'r system gynllunio gymreig. Rydym yn annog cymunedau i ymgysylltu'n fwy effeithiol trwy godi ymwybyddiaeth, hyfforddiant ac addysg. Mae ein ffocws ar gyfer llawer o'n gwaith allgymorth ar grwpiau adifreintiedig, y rhai 'ni chlywir yn aml' sydd heb rôl draddodiadol mewn cynllunio.

Mae'r staff a'r gwirfoddolwyr yn gweithio gydag ystod o grwpiau targed gyda'r bwriad o adeiladu eu gallu i gael budd lleol o'r system gynllunio. Mae'r rhai a elwodd yn cynnwys ffermydd bach, busnesau bach iawn, grwpiau lleiafrifol du ac ethnig, Sipsiwn a Theithwyr, pobl hŷn, pobl anabl, tenantiaid a chymdeithasau trigolion, grwpiau diwylliannol Cymreig ac ymddiriedolaethau datblygu lleol.

Dros y flwyddyn rydym wedi gweithio gyda phymtheg o grwpiau cymunedol, gyda chyfanswm o dros bedwar cant o aelodau, i ddelio gyda materion cynllunio. Rydym hefyd wedi traddodi tri deg pump o o ddigwyddiadau hyfforddiant ac adeiladu gallu, ar wahân, i gyfanswm o dros chwe chant o bobl.

Cefnogi cynghorau tref a chymuned ym Mannau Brychieniog

Yn ôl yn 2008, fe'n comisiynwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i draddodi cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi ac adeiladu gallu ar gyfer cynghorau tref a chymuned yn ardal y parc cenedlaethol. Y bwriad oedd cael pobl leol i ymwneud â datblygu strategaeth eang ar

gyfer y Cynllun Datblygu Lleol oedd yn cael ei baratoi ar gyfer yr ardal.

Comisiynwyd Cymorth Cynllunio Cymru eto gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gynnar yn 2010 i draddodi rhaglen o weithdai hanner diwrnod i gefnogi cyfranogaeth cynghorau tref a chymuned yn ystod cyfnodau terfynol paratoi'r Cynllun, yn enwedig yn ystod yr ymgynghoriad Adneuo ac Archwiliad sydd i ddod.

Deunyddai hyfforddi ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned

Yn dilyn ein rhaglen hyfforddi peilot arloesgar ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned yn 2007/08, cafodd Cymorth Cynllunio Cymru gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i baratoi cyfres gynhwysfawr o ddeunyddiau dysgu-o-bell ar gyfer pobl ar y ris isaf hon o Lywodraeth Gymreig. Gall y cynghorwyr weithio trwy'r deunyddiau hyn ar eu pennau eu hunain mewn grwpiau, neu gyda thiwtor neu gallant gomisiynu hyfforddiant pellach wyneb-yn-wyneb.

Profwyd y deunyddiau gan gynulleidfa darged mewn cyfres o sesiynau hyfforddi dros y flwyddyn ddiwethaf ac yna eu digwygio'n fanwl i adlewyrchu adborth. Cawsom ymateb calonogol iawn gan y cyfranogwyr. Dywedodd Dafydd Fryer o Gyngor Cymuned Melindwr:

"Cawsom weithdy gwerthfawr tu hwnt gyda Chymorth Cynllunio Cymru. Roedd yr hyfforddi'n canolbwyntio ar sut i gyflwyno'r sylwadau gorau ar geisiadau cynllunio, yn cynnwys drafftio llythyrau effeithiol. Ymateb unfrydol aelodau'r cyngor, sy'n gymysgedd o hen lawiau a phobl newydd, oedd bod y noson wedi bod yn hynod o ddiddorol a defnyddiol. Bydd yn bendant o fudd i'r cyngor i dderbyn hyfforddiant achlysurol pellach o'r math hwn yn y dyfodol."

Bydd y gyfres o ddeunyddiau hyfforddi dysgu-o-bell ar gael am ddim i'w lawrlwytho o'n gwefan yn fuan, ynghyd â ffynonellau perthnasol eraill o wybodaeth a chysylltiadau. Gall cynghorau tref a chymuned hefyd barhau i gael gwasanaeth hwylusydd Cymorth Cynllunio Cymru i draddodi'r hyfforddiant am gost is.

Ardaloedd Cymunedau Yn Gyntaf

Amcan penodol Cymorth Cynllunio Cymru yw cefnogi cymunedau o fewn ardaloedd adnewyddu Cymunedau'n Gyntaf. Dros y flwyddyn rydym wedi parhau i weithio gyda Chymunedau Yn Gyntaf Bowydd a Rhiw ym Mlaenau Ffestiniog, Cyngor Tref Ffestiniog a phartneriaid lleol eraill i ddatblygu a chodi arian ar gyfer prosiect cynhwysfawr i ymgysylltu'r gymuned. Amcan y prosiect yw nodi a sianelu anghenion ac uchelgeisiau'r gymuned leol i mewn i'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n datblygu ar gyfer Gwynedd. Rydym hefyd wedi cefnogi partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi i adeiladu gallu'r cynghorau tref a chymuned lleol a grwpiau gwirfoddol i gyfrannu at y cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Powys.

Cynllunio ar gyfer asedion cymunedol

Ymunodd Cymorth Cynllunio Cymru a phrosiect Busnesau Gwledig Conwy ac Asedion Cymunedol â'i gilydd ym Medi 2009 i helpu grwpiau lleol a chynghorau cymunedol yn wardiau gwledig Conwy i adnewyddu eiddo nas defnyddir. Yn y gweithdy hyfforddiant ar gyfer grwpiau a chynghorwyr lleol ystyriwyd sut i fynd ati i ddatblygu asedion cymunedol. Adeiladodd y cyfranogwyr eu dellatwriaeth o sut mae cynllunio'n effeithio ar brosiectau datblygu sy'n esblygu a deall sut i wneud cais cynllunio.

Canllaw Datganiadau Mynediad

Tua chanol 2009 comisiynwyd Cymorth Cynllunio Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gyda phartneriaid i gynhyrchu llyfryn canllaw hygyrch a byr ar baratoi Datganiadau Mynediad da. Mae tri chynulleidfa i'r canllaw: datblygwyr sy'n ystyried cyflwyno cais cynllunio; swyddogion cynllunio sy'n ystyried Datganiadau Mynediad gyda cheisiadau cynllunio; a Grwpiau Mynediad sydd am roi sylwadau ar geisiadau.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda Grwpiau Mynediad ac arbenigwyr eraill i greu'r canllaw hwn ac wedi casglu adborth

gan randdalwyr mewn sesiwn ffocws gyda llawer o bobl yn bresennol, mewn cyfarfodydd anffurfiol llai o faint a thrwy ohebiaeth gydag unigolion. Cyhoeddir y canllaw yn yr haf 2010 a bydd ar gael o Gymorth Cynllunio Cymru neu i'w lawrlwytho o wahanol wefannau.

Cefnogi Sipsiwn a Theithwyr

Ynghyd â gwaith achos parhaus i gefnogi grwpiau Sipsiwn a Theithwyr, mae Cymorth Cynllunio Cymru eto wedi cynorthwyo datblygu polisi cenedlaethol ar y pwnc. Yn yr hydref 2009 buom yn gweithio gydag Uned Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo mewn cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori rhanbarthol ar ddogfen ddrafft - Strategaeth Cymru Sipsiwn a Theithwyr. Buom yn hwyluso gweithdai i randdalwyr ar adeiladau a chynllunio, a helpu i ddatblygu syniadau i gyflawni amcanion cynllunio'r strategaeth.

Adolygu'r broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi cyfrannu at adolygiad y broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru. Fe'n cynrychiolwyd ar y grŵp llywio oedd yn arolygu'r astudiaeth ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i archwilio materion a phryderon sy'n codi o'r broses ceisiadau cynllunio. Buom hefyd yn cyfrannu trwy roi agwedd defnyddwyr lleyg ynghylch y system mewn cyfarfodydd grŵp ffocws, a thrwy gyflwyno ymateb ymgynghorol ffurfiol i gwestiynau ymchwil (gweler: www.planningaidwales.org.uk/about-us/consultation-responses).

Hyfforddiant ymgysylltu â'r gymuned i gynllunwyr awdurdodau lleol

Gydan arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dosbarthodd Cymorth Cynllunio Cymru raglen led-led Cymru o hyfforddiant ymgysylltu ar gyfer swyddogion cynllunio awdurdodau lleol ym Mehefin 2009. Amcan yr hyfforddiant oedd adeiladu dealltwriaeth o wahanol anghenion pobl sydd am ymwneud â materion cynllunio. Pwysleisiwyd yr angen am iaith eglur a thryloywder, a buddiannau adeiladu perthynas gynhyrchiol gyda chymunedau lleol. Y neges graidd oedd bod ymgysylltu effeithiol â chymunedau'n creu sefyllfa lle nad oes neb yn colli; mae'n cynyddu effeithiolrwydd yn y broses gynllunio, yn gwella perthynas â'r gymuned ac yn cynyddu hyder y cyhoedd yn y system. Daeth cyfanswm o wyth deg dau o gyfranogwyr o un deg chwech awdurdod cynllunio yng Nghymru i'r digwyddiadau. Roedd y pum sesiwn yn llawn dop ac mae'r adborth a gawsom yn gadarnhaol iawn.

Cyhoeddiadau

Dros y flwyddyn mae Cymorth Cynllunio Cymru weid cyhoeddi diweddariad o dri llyfryn canllaw ar gyfer y cyhoedd: 'Beth i'w wneud ;an yn wynebu cais cynllunio', ' Gweld y goleuni: cynllunio a hawl i olau' a 'Canllaw ar orfodaeth cynllunio'. Mae'r rhain ar gael am ddim o bencadlys Cymorth Cynllunio Cymru neu gellir eu lawrlwytho o www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/how-paw-can-help/information/publications

Cynnig gwasanaeth dwyieithog

Rydym nawr wedi cwblhau trydedd flwyddyn ein Cynllun Iaith Gymraeg gyntaf, sy'n cofnodi'r gweithredu sy'n angenrheidiol i ddarparu ein gwasanaethau yn hollol ddwyieithog. Dros y flwyddyn ddiwethaf buom yn cynnig i'n cleientiaid oedd yn ceisio cyngor, y dewis i drafod eu hachos un ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Mae ein holl gyhoeddiadau, yn cynnwys ein gwefan ar gael yn y ddwy iaith. Rydym hefyd yn cynnig sesiynau hyfforddi dwyieithog. Adolygwyd y Cynllun gan weithgor o staff, gwirfoddolwyr a chyfarwyddwyr a mabwysiedir cynllun newydd yn yr haf 2010 ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Adeiladu'r sefydliad

Bwrdd Rheoli a'r tîm staff

Bwrdd Rheoli

Mae Bwrdd Rheoli Cymorth Cynllunio Cymru yn sicrhau bod y sefydliad yn cadw at ei amcanion elusengar ac y rheolir yr arian yn effeithlon. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol bob tri mis, gyda chyfarwyddwyr ymddiriedol mewn lleoliadau led-led Cymru ac yn dod o wahanol sectorau yn cynnwys llywodraeth leol, ymgynghoriaethau ac academia. Enwebir un cyfarwyddwr gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru.

Cier rhestr o'r bobl sydd wedi gwasanaethu fel cyfarwyddwyr ar y Bwrdd Rheoli dros y flwyddyn ddiwethaf yn Atodiad 3. Maent wedi rhoi o'u hamser, egni, profiad, cysylltiadau a sgiliau i ddatblygu ein gwaith, gan gyfrannu'n helaeth at y datblygiadau a wnaethpwyd gennym.

Dros y flwyddyn dywedwyd ffarwél ag un cyfarwyddwr sydd wedi bod gyda ni ers amser sef John Lambert a chroesawyd tri aelod newydd o'r Bwrdd, James Griffiths, Laura Dagless a Gayle Wootton. Mae gennym strategaeth gadarn yn ei lle i recriwtio ar gyfer y Bwrdd ac mae pecyn gwybodaeth a recriwtio cynhwysfawr ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn ymuno â ni yn:
www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/volunteering/board-recruitment

Y tîm staff

Arweinir Cymorth Cynllunio Cymru gan Brif Weithredwr sy'n atebol i'r Bwrdd Rheoli am gynnal y gyfundrefn a rheoli'r staff.
Mae Cynllunydd a Rheolwr Achos yn gyfrifol am y Llinell Gymorth, yn cynnwys

cyfeirio ymlaen at wirfoddolwyr, a datblygu'r rhwydwaith o wirfoddolwyr ledled Cymru. Mae Swyddog Datblygu rhan-amser yn datblygu'n rhaglen gwaith allgymorth gyda chymunedau lleol a grwpiau ymylol. Mae Swyddog Gweinyddol ac Ariannol yn cefnogi'r Prif Weithredwr ac aelodau eraill o'r staff.

Yn Rhagfyr 2009 recriwtiwyd Swyddog Hyfforddi i gydlynu a datblygu gweithgareddau hyfforddi. Rydym nawr yn ymchwilio i opsiynau ariannu i gael Cynorthwy-ydd Cynllunio graddedig i gymryd y galwadau Llinell Gymorth a chynyddu canran y cyfeiriadau achos i wirfoddolwyr.

Gwneud mwy gyda'n gwirfoddolwyr

Rydym yn dibynnu ar wirfoddolwyr profiadol a chymwys i gefnogi'n gwasanaethau gwaith achos a hyfforddiant craidd. Mae cynllunwyr llai profiadol, myfyrwyr a gwirfoddolwyr o gefndiroedd eraill yn cynorthwyo gydag ystod o weithgareddau eraill megis hyfforddi, hwyluso, marchnata a gwaith allgymroth.

Mae'n rhwydwaith o wirfoddolwyr yn cynnig gwybodaeth, egni a brwdfrydedd. Mae'n cynnwys cynllunwyr profiadol a'r rhai sy'n newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn, myfyrwyr a phobl gyda sgiliau sy'n hanfodol i helpu cymunedau i ymgysylltu â'r broses gynllunio.

Dywed y gwirfoddolwyr wrthym bod y profiad yn rhoi agweddau newydd a defnyddiol iddynt ar ymrwymiad y cyhoedd mewn cynllunio, a ellir ei gymhwyso'n ddefnyddiol yn eu gwaith bob dydd.

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi cychwyn y gwaith i ddatblygu pob agwedd o'i rwydwaith gwirfoddolwyr i gydfynd â buddsoddiad yn safonau Gwirfoddolwyr y gobeithiwn ei gyflawni erbyn 2012.

Mae rhestr lawn o'r gwirfoddolwyr presennol ar gael yn: www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/volunteers

Rhai o brofiadau ein gwirfoddolwyr

Helen Ridgway: *"Mae'r cyfle i wirfoddoli gyda Chymorth Cynllunio Cymru yn fy ngalluogi i weithio gyda grŵp cymunedol mewn ffordd wahanol iawn i fy rôl mewn ymgynghoriaeth gynllunio breifat. Tra gellir trosglwyddo'r sgiliau mae gwaith gwirfoddol yn fy nghaniatáu i ymgysylltu'n uniongyrchol gydag aelodau brwdfrydig y gymuned."*

John Talbot: *"Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn hanfodol i mi fel dull o gadw mewn cyswllt â materion ymarferol cynllunio. Nid wyf yn gweithio fel cynllunydd mwyach, ond nid wyf am roi'r gorau i'm hunaniaeth fel cynllunydd na therfynu fy aelodaeth o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol. Rwyf bob amser wedi gweithredu ar egwyddor Cymorth Cynllunio gan ddechrau gyda fy mhrosiect cyntaf fel myfyriwr ddeng mlynedd ar hugain yn ôl ac mae'n rhywbeth y gobeithiaf fod â chyswllt ag ef bob amser.*

I lawer mae cynllunio yn rhywbeth gyda'r biwrocratiaid ar un ochr a'r siarcod ar yr ochr arall. Mae Cymorth Cynllunio yn gweithio oherwydd bod pobl yn gallu sgwrsio am eu problemau heb deimlo bod eu buddiannau dan fygythiad. Yn fyr mae Cymorth Cynllunio yn dyneiddio cynllunio."

Gweithgareddau'r gwirfoddolwyr

Cadwyd cofnod manwl o weithgareddau'r gwirfoddolwyr ers canol 2009. Dengys bod gwirfoddolwyr Cymorth Cynllunio Cymru, yn y cyfnod o ddeg mis rhwng Gorffennaf 2009 a Mawrth 2010, wedi rhoi bron i saith cant o oriau o'u hamser i helpu cymunedau yng Nghymru i ddeall a chymryd rhan yn y broses gynllunio.

Croeso i wirfoddolwyr newydd

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi croesawu saith ar hugain o wirfoddolwyr newydd dros y flwyddyn ddiwethaf gan ddod â'r cyfanswm i naw deg. Rydym bob amser yn chwilio am wirfoddolwyr newydd felly os oes gennych sgiliau mewn cynllunio, ymgysylltu â

chymunedau neu dalentau eraill ac am wneud y sytem gynllunio yn fwy teg yna cofiwch ymweld â www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/volunteering/

Gwirfoddolwyr yn ymadael

Ma'en diolch yn fawr i'r gwirfoddolwyr sy'n gadael: Celia Chow, Patrick Moss, Mark Dakeyne, Clive Williams, Tracey Brooks, Robert Green, Michael Fowler, Peter Laxton, Emily Dawson, Gemma Hideng, Sonja Thompson, Mike Jones, Phil Mclean, Sarah Hall a Solomon Aniyam. Dymunwn y lwc gorau posibl iddynt yn y dyfodol.

Hyfforddi gwirfoddolwyr a rhwydweithio

Cynigir rhaglen barhaol o hyfforddiant a digwyddiadau rhwydweithio i wirfoddolwyr Cymorth Cynllunio Cymru. Er enghraifft, cynhelir nosweithiau gwirfoddolwyr bob chwe mis i gyflwyno gwirfoddolwyr newydd i'n gwerthoedd, polisïau ac ymarferion ac i gadw cysylltiad gwirfoddolwyr sefydlog â'n gwaith.

Mewn partneriaeth â Chynllunwyr Ifanc Cymru, trefnwyd dwy noson gwis yn y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer gwirfoddolwyr, cydweithwyr sy'n gynllunwyr a chynllunwyr ifanc yng Nghaerdydd. Roedd y ddwy noson yn llwyddiannus iawn gydag oddeutu cant o gynllunwyr yn mynychu ac yn codi £150 yr un i'r ddau bartner.

Gall gwirfoddolwyr fynychu digwyddiadau hyfforddi a chyrsiau perthnasol a ddarperir gan Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru am bris gostyngedig neu am ddim.

Datblygu ein gwasanaethau hyfforddi

Mae gallu Cymorth Cynllunio Cymru i ddosbarthu hyfforddiant wedi cynyddu'n sylweddol yn dilyn recriwtio Swyddog Hyfforddi yn Rhagfyr 2009. Mae'r rôl newydd hon yn gyfrifol am ddatblygu prosiectau hyfforddi newydd a chydlynu ein rhaglenni hyfforddi cyfredol ar gyfer grwpiau difrientiedig, cynrychiolwyr y gymuned a phroffesiynolwyr cynllunio. Mae cynllun hyfforddi yn ei le i dywys ehangu ein gweithgareddau hyfforddi hyd at Fawrth 2013, a bwriadwn erbyn hynny fod yn ddarparwr uchel ei barch o hyfforddiant cynllunio annibynnol o ansawdd uchel.

Rydym wedi gweithio i gynyddu ein gallu i gynnig rhaglenni hyfforddi i amrywiaeth o gynulleidfaoedd targed. I'n cynorthwyo gyda hyn rydym wedi bod yn adeiladu gallu ein gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r hyfforddiant, fydd yn caniatáu i ni ddatblygu ein gwasanaethau hyfforddi'n fwy rhagweithiol a helpu sicrhau y clywir amrywiaeth lleisiau'r gymuned mewn cynllunio.

Codi ein proffil

Yn Y Senedd ar Fehefin 24ain 2009 cynhaliwyd Derbyniad gan Gymorth Cynllunio Cymru a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a rhanddalwyr allweddol dan nawdd Jane Davidson, Gweinidog Cynulliad. Roedd y derbyniad yn llwyddiant mawr yn nhermau codi'n proffil ymysg y bobl allweddol sy'n gwneud penderfyniadau, gydag o leiaf deg Aelod Cynulliad yn bresennol. Bwriadwn drefnu derbyniad arall ar y cyd y flwyddyn nesaf.

Paratowyd strategaeth farchnata i helpu adeiladu'n proffil ymysg pump cynulleidfa darged, sef Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau cynllunio lleol, cyfundrefnau rhanddalwyr a chymunedau difreintiedig.

Gweithio gyda phartneriaid

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn gweithio gyda sefydliadau partner i gynyddu'n effaith, cynnal ein cyllid craidd presennol ac i godi incwm ychwanegol trwy brosiectau wedi eu cyllido.

Cyllid craidd

Cawn ein cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Sefydliad Cynllunio trefol Brenhinol yng Nghymru. Bydd y grant flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n codi o ddechrau Ebrill 2010 o £100,000 ar hyn o bryd i £120,000. Mae'r cyllid craidd yn gyfrifol am staffio, llety a chostau eraill sy'n hanfodol i ddosbarthu'n gwasanaethau cyngor a gwybodaeth craidd.

Cyllid prosiect

Rydym yn helaethu'r cyllid craidd trwy ymgymryd â chomisiynau prosiect gydag ystod o sefydliadau partner a thrwy draddodi hyfforddiant. Mae gwaith prosiect, a gweithgareddau eraill sy'n talu ffioedd, yn allweddol i ddatblygu ein gwaith ac yn cyfrannu at gymysgedd o arian mwy cynaliadwy. Rhydd Atodiad 2 fanylion o sut y cynhyrchwyd ac y gwariwyd adnoddau ariannol gan Gymorth Cynllunio Cymru dros y flwyddyn ariannol Ebrill 2009 i Fawrth 2010.

Sefydliadau partner

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio gydag ystod o sefydliadau ar lefelau gwahanol o ddylanwad ac ar draws pynciau ac ardaloedd daearyddol gwahanol.

Partneriaid strategol

- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Yr Arolygiaeth Gynllunio
- Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru

Partneriaid rhaglen

- Un Llais Cymru
- Cymunedau yn Gyntaf

Partneriaid Prosiect

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Gwasanaethau Cymorth Cynllunio yn Yr Alban, Lloegr a Llundain
- Grwpiau Hygyrchedd, Anabledd Cymru ac arbenigwyr mynediad
- Sefydliadau sy'n cefnogi Sipsiwn a theithwyr
- Datblygu Cymunedol Cymru

Edrych ymlaen

Dros y flwyddyn hon rydym wedi gallu datblygu ardaloedd newydd a chyffrous o weithio gyda chefnogaeth grant parhaus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru. Yn ogystal â'r Llinell Gymorth ar y ffôn, rydym nawr hefyd yn darparu hyfforddiant cynllunio i ystod o gynulleidfaoedd, yn cyhoeddi pamffledi a chanllawiau, yn cynorthwyo awdurdodau lleol gyda gwaith ymgysylltu cymunedol rhagweithiol ac yn ymateb i ymgyngoriadau polisi cenedlaethol ar ran defnyddwyr y system gynllunio.

Edrych ymlaen dros y flwyddyn sydd i ddod…

Rôl fwy brif-ffrwd i Gymorth Cynllunio

…bydd gwasanaethau Cymorth Cynllunio ar draws y DU yn cymryd rôl fwy brif-ffrwd mewn cynllunio, gyda chefnogaeth yr agenda wleidyddol 'lleoliaeth newydd'. Bydd Cymorth Cynllunio Cymru yn ymateb trwy barhau i adeiladu gallu ein staff a'n gwirofddolwyr. Bydd cynllun busnes ar gyfer 2010 hyd 2013 yn gosod y strategaeth ar gyfer twf.

…byddwn yn parhau i ddylanwadu ar ddatblygu polisi cynllunio Cymreig trwy ymateb i ymgyngoriadau, a thrwy gynrychiolaeth ar Fforwm Cynllunio Cymru a grwpiau allweddol eraill.

…byddwn yn lobïo am adnoddau ychwanegol cyn etholiadau'r Senedd yng ngwanwyn 2011.

Allgymorth cymunedol

…byddwn yn ymgysylltu mewn gwaith rhagweithiol gyda chymunedau ffiniol trwy bartneriaethau allgymorth arloesgar, gyda'r bwriad o ymgymryd â gwaith enghreifftiol a ellir ei ailwneud mewn ardaloedd eraill.

…byddwn yn marchnata ein gwasanethau i'r rhai sydd â'r angen mwyaf, gan gynyddu canran yr ymholwyr Llinell Gymorth sydd â chymhwyster uchel.

Gwirfoddolwyr

…cyfeirir canran helaethach o achosion Llinell Gymorth i wirfoddolwyr.

…anogir gwirfoddolwyr i gyfrannu hyd yn yn oed yn fwy ar draws holl adrannau ein gwaith, yn enwedig hyfforddiant.

…bydd rhwydwaith y gwirfoddolwyr yn parhau i gynyddu, gyda chefnogaeth rhaglen o hyfforddiant, cyflwyno a chyfleoedd rhwydweithio mewn lleoliadau ar draws Cymru.

Cyhoeddiadau

…byddwn yn cyhoeddi canllaw hygyrch ar Ddatganiadau Mynediad a chyfres gynhwysfawr o ddeunyddiau dysgu-o-bell ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned.

Hyfforddi

…byddwn yn datblygu cynnig gyda phartneriaid i ddosbarthu rhaglen hyfforddiant systematig ar gyfer Aelodau awdurdodau lleol ar bwyllgorau cynllunio.

Atodiad 1: Meini Prawf Cymhwyster Cymorth Cynllunio Cymru



Lefelau cymhwyster

Lefel 1 - Gwybodaeth

Tirfeddianwyr domestig sydd am ddatblygu, a phobl sydd ddim yn ymwybodol o'r system gynllunio ac a hoffai gymryd rhan.

Lefel 2 - Cyngor

Trydydd parti sydd yn dymuno mynegi eu safbwyntiau ar gais cynllunio neu gynllun datblygu, busnesau gyda phump neu lai o weithwyr, a chynghorau cymuned a thref.

Lefel 3 - Cefnogaeth

Grwpiau cymuned a gwirfoddol, pobl yn dioddef rhagfarn oherwydd oedran, hil, cenedligrwydd, iaith, anabledd, rhyw, rhywioldeb neu gefndir cymdeithasol, neu unrhywun sydd methu ag ymrwymo yn y system gynllunio oherwydd rhwystrau dysgu neu iaith.

Esbonio cymhwyster

Mae Cymorth Cynllunio Cymru'n darparu gwahanol lefelau o wasanaeth i gleientiaid yn dibynnu ar eu hamgylchiadau. Adolygir ein meini prawf yn flynyddol a mabwysiadwyd y meini prawf newydd, symlach yn Ionawr 2008. Cynigiwn dair lefel o wasanaeth i'n cleientiaid:

Gwybodaeth: Yn cynnwys disgrifiad o'r rhan berthnasol yn y broses gynllunio, cyfeirio ymlaen at lenyddiaeth canllaw berthnasol neu restr o ymgynghorwyr cynllunio ardystiedig.

Cyngor: Yn cynnwys helpu cleientiaid i ddatblygu strategaethau a dadleuon i ddelio gyda materion cynllunio a thramwyo'r system gynllunio.

Cefnogaeth: Yn cynnwys cynrychioli cleientiaid, cysylltu â sefydliadau cysylltiedig, cwblhau gohebiaeth a ffurflenni fel bo'n briodol, a helpu paratoi ymatebion i geisiadau cynllunio.

Y rhai na allwn helpu

Ni all Cymorth Cynllunio Cymru helpu'r bobl ganlynol:

- Ymgynghorwyr cynllunio, penseiri, asiantwyr ac ati.
- Busnesau masnachol maint canolog i fawr.
- Unigolion neu grwpiau sy'n debygol o elwa o unrhywbeth mwy na datblygiad bach yn eu tŷ.
- Rheiny sydd ag incwm i dalu am ymgynghorwr cynllunio.

Atodiad 2: Gwybodaeth ariannol 2009/10

Datganiad o weithgareddau ariannol y flwyddyn yn gorffen ar 31 Mawrth 2010

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2010 £	Cyfanswm 2009 £
Adnoddau'n dod i mewn				
Gweithgareddau er hyrwyddo amcanion yr elusen				
Grantiau a dderbyniwyd	8,000	101,808	109,808	123,690
Rhoddion	145	-	145	40
Digwyddiadau codi arian	150	-	150	659
Gwerthiant cyhoeddiadau	162	-	162	735
Llog banc a dderbyniwyd	83	-	83	415
Incwm arall	420	-	420	-
Ffioedd yn dderbyniadwy	2,094	45,369	47,463	12,904
Cyfanswm adnoddau'n dod i mewn	**11,054**	**147,177**	**158,231**	**138,443**
Adnoddau a wariwyd				
Gwariant elusennol uniongyrchol	-	132,046	132,046	134,382
Rheolaeth a gweinyddiaeth	2,247	-	2,247	3,480
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	**2,247**	**132,046**	**134,293**	**137,862**
Adnoddau net yn dod i mewn ar gyfer y cyfnod	8,807	15,131	23,938	581
Cronfeydd a gariwyd ymlaen	31,019	15,103	46,122	45,541
Cronfeydd i'w cario ymlaen	**39,826**	**30,234**	**70,060**	**46,122**

Cymorth cynllunio cymru mantolen ar 31 Mawrth 2010

	2010 £	2009 £
Asedau sefydlog		
Asedau diriaethol	682	494
Asedau cyfredol		
Stociau	300	300
Dyledwyr	5,018	8,461
Arian parod yn y banc	66,947	39,851
	72,265	48,612
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	(2,887)	(2,984)
Asedion cyfredol net	69,378	45,628
Cyfanswm yr asedion namyn y dyledion cyfredol	**70,060**	**46,122**
Cronfeydd		
Anghyfyngedig	39,826	31,019
Cyfyngedig	30,234	15,103
Cronfeydd yr aelodau	**70,060**	**46,122**

Cymerwyd y ffigyrau uchod o gyfrifon drafft 2009/10, sydd i'w harchwilio. Mae'r cyfrifon llawn ar gael ond i chi ofyn.

Roedd Cymorth Cynllunio Cymru yn falch i gael mwy o incwm nag o wariant - £23,938 yn 2009/10. Roedd hyn oherwydd bod yr incwm prosiect tua £20,000 yn fwy na'r ffigwr oedd wedi ei gyllidebu. Fodd bynnag, mae'r grant o £100,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn hollol hanfodol i barhad gweithredu CCC. Roedd y gwariant ychydig yn is na'r cyllid. Oherwydd bod arian cyllid dros ben, cododd cronfeydd y sefydliad i £72,060.

Mae'r tablau yn Atodiad 2 yn cyfeirio at gronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig. Mae hyn yn gwahaniaethu rhwng cronfeydd a ellir eu gwario ar eitemau penodol yn unig sydd â chysylltiad ag ariannu prosiect fel arfer, a'r rhai lle nad oes unrhyw gyfyngiad ar eu defnydd.

Atodiad 3: Cyfarwyddwyr a staff

Y Bwrdd Rheoli

Tony Humphreys, Cadeirydd (cynllunydd, wedi ymddeol)

Owain Wyn, Trysorydd (ymgynghorydd cynllunio ac adnewyddu)

Peter Kingsbury, Cadeirydd Pwyllgor Staffio ac Archwilio (Cyngor Caerdydd)

Ian Horsburgh, Swyddog Cyhoeddusrwydd (cynllunydd, wedi ymddeol)

Allan Archer (Dinas a Sir Abertawe)

Kathryn Beard (Llywodraeth Cynulliad Cymru)

Laura Dagless (gwirfoddolwraig Cymorth Cynllunio Cymru) - ***o Orffennaf 2009***

James Griffiths (Cymdeithas Cynghorau Cymunedau Lleol) - ***o Orffennaf 2009***

Neil Harris (Ysgol Gynllunio Tref a Rhanbarth Caerdydd)

Katherine Hughes (ymgynghorydd datblygiad ac ymchwil cymunedol)

John Lambert (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru) - ***hyd at Orffennaf 2009***

Kathleen Norton (cynllunydd, wedi ymddeol)

Anna Prescott (enwebai SCTB yng Ngymru) - ***o Orffennaf 2009***

Lucie Taylor (Cyngor Dinas Casnewydd)

Gayle Wootton (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru) - ***o Chwefror 2010***

Y tîm staff

Elwyn Thomas, Prif Weithredwr

James Davies, Cynllunydd a Rheolwr Achos

Marika Fusser, Gweithiwr Datblygu Gogledd a Chanolbarth Cymru

Kay Sharman, Swyddog Ariannol a Gweinyddiaeth - ***o Ebrill 2009***

Maria Allen, Swyddog Hyfforddi - ***o Ragfyr 2009***